JCQ CIC

# Gwybodaeth i ymgeiswyr
## Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac arholiadau/asesiadau


Image by Patrice Jones

**Mae'r ddogfen hon wedi ei hysgrifennu i'ch helpu i aros o fewn rheoliadau arholi.**

**Dylech ei darllen yn ofalus.**

Mae pawb ohonom yn hoffi rhannu ein profiadau wrth sefyll arholiadau. Fodd mae'n bwysig ystyried beth i'w ddweud ac i feddwl pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu.

Gallai rhannu syniadau ar-lein ag eraill fod o gymorth wrth astudio neu adolygu.

Fodd bynnag, mae cyfyngiadau o ran faint o wybodaeth y gallech ei rhannu ac mae angen i chi ofalu nad ydych yn torri'r rheolau. Hoffem ofyn i chi ymddwyn yn gyfrifol wrth drafod ar-lein. Os ydych chi'n ansicr o'r hyn y gallech chi ei drafod ar-lein ynglŷn â'ch arholiadau, mae hi wastad yn syniad da gofyn i'ch athro.

Os ydych chi'n derbyn gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag asesiadau, neu rywbeth tebyg i hynny, trwy gyfryngau cymdeithasol neu trwy unrhyw gyfrwng arall, mae'n rhaid i chi hysbysu'ch athro neu aelod arall o staff. Rhaid i chi ddangos iddyn nhw'r hyn yr ydych chi wedi ei dderbyn. Byddan nhw wedyn yn rhoi gwybod i'r corff dyfarnu am yr achos a byddan nhw'n cynnal ymchwiliad.

Lle bo ymgeiswyr yn torri rheolau arholiadau, asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs neu asesiadau di-arholiad, mae dyletswydd ar y cyrff dyfarnu i ymchwilio, a gallan nhw osod cosbau.


Image by Ben Wight

**Cofiwch, byddai gwneud y canlynol yn gamymddwyn:**

- copïo neu ganiatáu i waith gael ei gopïo – h.y. rhoi gwaith ysgrifenedig ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol cyn arholiad/asesiad;
- cydgynllwynio: caniatáu i eraill helpu i gynhyrchu eich gwaith chi neu helpu eraill â'u gwaith nhw;
- gofyn i eraill am ba gwestiynau y bydd eich arholiad yn eu cynnwys (hyd yn oed os nad oes unrhyw un yn dweud wrthych)
- cael neu rannu manylion am gwestiynau arholiad cyn yr arholiad - p'un a ydych chi'n meddwl bod y rhain yn rhai go iawn neu'n ffug; neu
- peidio â rhoi gwybod i'r byrddau arholi neu i'ch ysgol/coleg am wybodaeth yn ymwneud ag arholiadau sy'n cael ei rhannu.

**Mae cosbau'r cyrff dyfarnu yn cynnwys:**

- rhybudd ysgrifenedig;
- colli marciau am adran, cydran neu uned;
- cael eich diarddel o uned, pob uned neu gymhwyster; neu
- cael eich gwahardd rhag sefyll asesiadau neu arholiadau am gyfnod penodol o amser.

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â rheolau'r CGC:**
https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dogfennau-cgc/#tab_1

JCQ 2020 – Yn weithredol o 1 Ebrill 2020